Ysgol Penrhyn-coch

Daeth yn hanner tymor olaf y flwyddyn ysgol unwaith eto ac fel arfer roedd llu o weithgareddau a digwyddiadau ar yr amserlen.

Aeth disgyblion blynyddoedd 3-6 ar ymweliad â Phwerdy Cwmrheidol un prynhawn a threulio amser phleserus a diddorol yn cael eu tywys o gwmpas y lle. Yna ar brynhawn braf ychydig yn ddiweddarach aethant am dro i fferm Cwmbwa i weld cyflenwad o bysgod yn cael eu rhoi yn y llyn. Nid dyma'r tro cyntaf i'r plant fod yng Nghwmbwa - buont yno yn gweld ffurfio'r llyn ac hefyd yn plannu coed o'i gwmpas - y cyfan o dan gynllun y Cyngor Gwarchod Natur. Ein diolch diffuant am y croeso arbennig a gawsom yng Nghwmrheidol a Chwmbwa.

Braf yw cael llongyfarch Cerys Humphries, cyn ddisgybl o'r ysgol ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Taf Elai. Cerys a'i ffrind oedd yn fuddugol ar y ddeuawd piano rhwng 12 a 15 oed.

Ar nos Wener Mehefin 7fed cynhaliwyd y ffair flynyddol o dan nawdd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Fe'i agorwyd gan Mr C P Jenkins a mawr yw ein dyled iddo am ei haelioni parhaus i'r ysgol. Cafwyd noson lwyddiannus, y tywydd yn braf a'r stondinau'n orlawn. Yr ydym yn ddyledus tu hwnt i'r rhieni am eu llafur caled ac yn diolch i bawb a sicrhaodd y llwyddiant hwn. Derbynied pawb, yn rieni, disgyblion, ffrindiau a chydnabod ein gwerthfawrogiad a'n diolchgarwch am eu haelioni a'u cefnogaeth unwaith eto.

Edrychwn ymlaen yn awr at weddill prysur y tymor - chwaraeon potes yr Urdd, mabolgampau'r cylch a'r ysgol ac wrth gwrs y wibdaith tua diwedd y tymor.

Cynhaliwyd dwy noson agored i rieni'r disgyblion ddechrau Mai a bu'n fuddiol dros ben eleni eto. Caiff rhieni disgyblion blwyddyn 2 gyfle cyn diwedd y tymor i drafod datblygiad eu plant gyda'r athrawes.